# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

The following reports are Information Items for the Education for Life Scrutiny Committee.

1 Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Addysg (Band B) - y diweddaraf.

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES
# 5 TACHWEDD 2019

**PWNC:** **RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF A'R RHAGLEN ADDYSG BAND B – DIWEDDARIAD**

**ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

---

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi diweddariad i'r Aelodau ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a Rhaglenni Addysg Band A a Band B.

## 2. CRYNODEB

2.1 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i Aelodau ar sefyllfa bresennol y Rhaglen Gyfalaf Band A (£56.5 miliwn) a Band B (£78 miliwn) i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

2.2 Mae'r tanwariant rhagamcanol presennol yn rhaglen Band A oddeutu £1.370m. Dyrannwyd y tanwariant rhagamcanol hwn i brosiect ailwampio yn Ysgol Arbennig Trinity Fields.

2.3 Y cynlluniau blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer Cam 1 rhaglen Band B yw ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol Trinity Fields ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn.

2.4 Megis dechrau cael eu datblygu y mae'r ddau brosiect a amlinellir yn 2.3 uchod, a bydd swyddogion yn sicrhau bod Aelodau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn perthynas â'r holl agweddau ar y cynnig e.e. ariannol, achos busnes, proses ymgynghori ac ati.

2.5 Mae Bwrdd wedi'i sefydlu i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth/Un Rhyw/Lleoedd dros ben.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad.

## 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn cael diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif.

## 5. YR ADRODDIAD

### 5.1 Band A

5.1.1 Mae'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif yn cael ei hystyried yn rhaglen strategol, hirdymor, fawr o fuddsoddi cyfalaf sy'n cefnogi prosiectau adeiladu cyfalaf ar raddfa fawr ledled Cymru, gyda'r nod o wella adeiladau ysgol i fodloni anghenion Addysgol a Chymunedol yr 21$^{ain}$ Ganrif.

5.1.2 Fe wnaeth y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif (2014-2019), Band A, gymeradwyo dyraniad o £56.5 miliwn ar gyfer cynlluniau gwella/adeiladu newydd yn yr ysgolion a nodir isod:

- Y Gwyndy (rhan o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni)
- Ysgol Uwchradd Islwyn
- Ailwampio Ysgol Gyfun y Coed-duon ynghyd â chae 3G
- Ysgol 3-18 Idris Davies
- Ehangu Ysgol Trecelyn a dymchwel Ysgol Uwchradd Cwmcarn

5.1.3 Ar sail ffigurau alldro'r prosiectau Band A uchod a gwblhawyd, mae'r tanwariant ar y rhaglen oddeutu £1.370m erbyn hyn.

5.1.4 Mae'r tanwariant uchod wedi'i ddyrannu i brosiect ailwampio yn Ysgol Trinity Fields fel y gellir gwneud y gwaith a nodir isod, a fydd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ddysgu ar gyfer ei disgyblion:

- Gosod systemau codi newydd yn yr ystafelloedd dosbarth.
- Addasu cyfleusterau toiled i'w gwneud yn fwy hygyrch i'r angen.
- Uwchraddio ystafelloedd encilio i greu amgylchedd diogel a chroesawgar, yn cynnwys darparu golau naturiol.
- Ad-drefnu ardal y cwrt.
- Gwella ac adleoli ardal gegin y disgyblion.
- Creu amgylchedd byw gartref er mwyn cynyddu Sgiliau Byw'n Annibynnol disgyblion.
- Creu ardal pwll peli newydd.
- Gwelliannau ac addasiadau i'r pwll hydrotherapi a fydd yn cynyddu oes a hygyrchedd y ddarpariaeth i'r holl ddisgyblion a'r Gymuned ehangach.
- Cynyddu cyfleusterau storio i ddarparu ar gyfer anghenion mwy cymhleth disgyblion h.y. cynnydd mewn cadeiriau olwyn, offer meddygol.
- Gwelliant i'r ardal dysgu yn yr awyr agored.
- Uwchraddio cyfleusterau TG.
- Gwella awyru yn yr ysgol.
- Creu ardaloedd byw'n annibynnol mewn ystafelloedd dosbarth.

5.1.5 Isod ceir dadansoddiad manwl o un o'r meysydd gwariant a'r effaith y bydd yn ei chael:

**Adleoli'r gegin safonol fasnachol o'i lleoliad presennol i flaen yr ysgol (h.y. o fewn yr hwb cyfathrebu presennol).**

Mae'r caffi yn cael ei redeg trwy ddilyn model menter fusnes / menter yr ifanc. Mae wedi llwyddo i ennill tystysgrif gradd 5 mewn hylendid bwyd ers iddo fod ar agor, ac mae'n ennill enw da am ei werth am arian a'i wasanaeth yn y gymuned leol, yn ogystal â bod yn adnodd addysgu rhagorol. Ar hyn o bryd mae'n cynnig y profiad o reoli a dysgu am y canlynol i ddisgyblion yn yr adran 14-19: hylendid bwyd, paratoi bwyd, arlwyo a lletygarwch, cynllunio busnes, rheoli arian, sgiliau cymdeithasol a'r amgylchedd byd gwaith. Ar hyn o bryd mae angen i ddisgyblion wneud gwaith paratoi'r gegin mewn ardal i ffwrdd oddi wrth fan gweini'r Caffi, a chyfyngir ar y bwyd a baratoir i'w gynnig o ganlyniad i hynny. Mae'n rhaid i'r holl baratoadau bwyd gael eu symud drwy'r ysgol i'r Caffi i'w prynu. Defnyddir y caffi gan staff a rhieni, a chaiff gefnogaeth dda hefyd gan ffrindiau'r ysgol. Mae'r Caffi wedi'i leoli ym mlaen yr ysgol i alluogi'r gymuned ei ddefnyddio a galluogi mynediad hawdd i rieni/y cyhoedd heb yr angen iddynt ddod i mewn i brif ran yr ysgol.

Yr effaith ar ôl cwblhau'r gwaith o adleoli'r gegin yw y bydd ardal sgiliau byw'n annibynnol yn cael ei chreu yn y gegin a fydd bellach yn wag. Byddai hyn yn cynnwys adnoddau i alluogi myfyrwyr hŷn i ymarfer sgiliau cartref / sgiliau byw'n annibynnol. Bydd hyn yn caniatáu i'r ysgol addysgu sgiliau gydol oes sy'n galluogi disgyblion gael mwy o ddewis ar ôl gadael yr ysgol. Drwy ymarfer sgiliau cartref / sgiliau byw'n annibynnol mae mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ar ôl gadael yr ysgol. Bydd hefyd yn cynyddu'r potensial i ddisgyblion ddod yn oedolion ymreolus o fewn y gymuned.

5.1.6 Mae prosiect Band A Trinity Field yn mynd rhagddo'n dda. Mae Cam 1 wedi'i gwblhau, sy'n cynnwys yr ystafell ddosbarth newydd yn y cwrs, adleoli ac ailwampio'r caffi a'r gegin, ac ardal y pwll peli.

5.1.7 Er mwyn lleihau'r effaith gymaint â phosibl ar ddisgyblion tra bod y gwaith yn digwydd yno, mae wedi'i raglennu dros gyfnod o ddeunaw mis, gan ddisgwyl y bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Awst 2020.

5.2 **Band B**

5.2.1 Prif nodau rhaglen fuddsoddi Band B y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC), yw:

- Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael.
- Sicrhau bod gennym ysgolion o'r maint cywir yn y lleoliad cywir, yn darparu digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Sicrhau'r defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol, i'w defnyddio gan Ysgolion a'r Gymuned ehangach.

5.2.2 Y ddau gynllun cyntaf a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer Cam 1 rhaglen Band B yw ehangu Ysgol Arbennig Trinity Fields ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

5.2.3 Mae grŵp prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer Prosiect Trinity Fields sy'n cynnwys swyddogion o Addysg, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymgynghoriaeth Adeiladu, Iechyd a chynrychiolwyr o Ysgol Trinity Fields.

5.2.4 Cylch gwaith y grŵp yw sicrhau bod y prosiect yn bodloni anghenion plant ac oedolion ifanc agored i niwed yn yr ysgol a'r gymuned ehangach, nid o safbwynt addysgol yn unig, ond o safbwynt ehangach o lawer. Bydd y model cydweithio hwn yn sicrhau bod manyleb y prosiect yn cael ei chyflawni mewn modd effeithlon ac effeithiol, gan osgoi dyblygu cyfleusterau Gwasanaethau Cyhoeddus felly.

5.2.5 Trwy gydol gwaith ailwampio Band A a'r cynllunio ar gyfer prosiect Band B, mae'r Ysgol wedi datblygu ffyrdd cyffrous ac arloesol o gynnwys ac ymgorffori llais y disgybl er mwyn sicrhau bod anghenion ei disgyblion yn cael eu bodloni.

5.2.6 Mae hyn wedi cynnwys defnyddio techneg adnabod retina, cymhorthion gweledol ac annog ymgysylltu creadigol.

5.2.7 Datblygwyd rhaglen fanwl i gyflawni'r prosiect hwn, sy'n cynnwys cyflwyno Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Strategol cyfunol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd tymor yr Hydref.

5.2.8 Mae hyn yn ddibynnol ar fod grŵp y prosiect yn cytuno ar fanyleb y prosiect erbyn canol Tachwedd 2019.

5.2.9 Yr ail brosiect yng Ngham 1 yw adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn.

5.2.10 Mae'r rhaglen Band B yn agwedd allweddol ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) corfforaethol o ran sicrhau bod digon o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg i'w cael i gefnogi'r targed heriol o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae rheoliadau'r CSCA yn destun ymgynghori ar hyn o bryd ac, os cânt eu cymeradwyo, byddant yn ei gwneud yn ofynnol i ni fodloni targedau heriol o ran lleoedd ysgol dros y 5 i 10 mlynedd nesaf.

5.2.11 Bydd yn parhau i gefnogi darpariaeth Gymraeg ffyniannus yng Nghaerffili drwy sicrhau datblygu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle maent yn dod o dan bwysau, fel y nodwyd yn CSCA 2017 - 2020 yr Awdurdod, sef Dwyrain Caerffili a Bedwas/Tredomen/Machen.

5.2.12 Ar hyn o bryd mae Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn cwmpasu dalgylch ardal Dwyrain Caerffili yn y Fwrdeistref. Mae'r Ysgol yn llawn ac nid oes cyfle i ehangu ar y safle presennol.
Yn yr ardal hon y ceir cyfraddau dilyniant isaf y Cyngor o ofal plant cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

5.2.13 Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn bodloni'r targedau heriol ar gyfer mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'n hanfodol creu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn yr ardal hon o'r Fwrdeistref, a hynny ar fyrder.

5.2.14 Mae'r gwaith o ddymchwel Ysgol Uwchradd Cwmcarn wedi'i gwblhau'n llwyddiannus erbyn hyn, a gall gwaith ymchwilio ddechrau ar y safle yn barod at ei ddefnydd arfaethedig ar gyfer Addysg h.y. arolygon topograffeg.

5.2.15 Mae grŵp prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer prosiect Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon sy'n cynnwys swyddogion o Addysg, y Blynyddoedd Cynnar, Ymgynghoriaeth Adeiladu, a chynrychiolwyr o'r Ysgol.

5.2.16 Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i sicrhau y bydd yr holl wybodaeth berthnasol a manyleb fanwl y gwaith ar gael i gefnogi cyflwyno Achos Busnes Amlinellol ac Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd tymor yr Hydref. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â disgyblion gan fod llais y disgybl yn elfen hanfodol drwy gydol unrhyw brosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif ac ar ôl ei gwblhau.

5..2.17 Os bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau uchod, ymgymerir ag ymgynghoriadau llawn wedyn yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd hyn yn dechrau yn nhymor yr Haf 2020.

5.3 Mae Bwrdd wedi'i sefydlu i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth/Un Rhyw/Lleoedd dros ben sy'n cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Craffu, Undebau, Cynrychiolwyr Llywodraethwyr, Colegau, Penaethiaid, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, Swyddogion Addysg ac Aelod o'r Cabinet.

5.3.1 Mae'r bwrdd wedi cyfarfod deirgwaith ac wedi cytuno ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer cyflenwi darpariaeth chweched dosbarth yn y dyfodol e.e. deilliannau gorau ar gyfer dysgwyr, cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol, cynwysoldeb, cydraddoldeb galwedigaethol/academaidd a chadw gymaint o ddysgwyr ag y bo modd mewn darpariaeth addysgol ôl-16 o ansawdd uchel. Mae'r grŵp yn gweithio tuag at argymhellion ar gyfer bodloni'r blaenoriaethau allweddol hyn yn y tymor hir a'r tymor byr.

5.4 Mae'r Bwrdd Strategol Ysgolion, yn cynnwys y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, y Prif Swyddog Addysg, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg, Pennaeth Interim Gwasanaethau Eiddo, yr Aelod Cabinet ar gyfer Addysg a Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro a gwerthuso cyflawniad yr holl brosiectau.

5.5 Megis dechrau cael eu datblygu y mae'r holl brosiectau a amlinellir uchod, a bydd swyddogion yn sicrhau bod Aelodau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn perthynas â'r holl agweddau ar y cynnig e.e. ariannol, achos busnes, proses ymgynghori ac ati.

## 6. **RHAGDYBIAETHAU**

6.1 Ni wnaed unrhyw ragdybiaethau mewn perthynas â'r adroddiad hwn gan mai diweddaru ar gynnydd prosiectau unigol yn unig a wna.

## 7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU PERTHNASOL Y CYNGOR

7.1 Strategaeth Cyrhaeddiad Caerffili: Codi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, hyderus, balch ac uchelgeisiol a'u bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd, lleoliadau a phrofiad addysgol o ansawdd uchel.

7.2 Amcanion Llesiant Caerffili 2018 i 2023. Bydd y cynnig hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni'r amcanion hyn, a'r canlynol yn benodol:

Amcan Llesiant 1 – Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Amcan Llesiant 2 – Galluogi cyflogaeth

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn meddwl mwy am yr hirdymor, gan weithio gyda phobl a chymunedau, ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn creu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach.
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

8.2 Mae'r Ddeddf yn pennu'r egwyddor datblygu cynaliadwy y dylai'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru asesu'u penderfyniadau yn ei herbyn. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy hyrwyddo i'r eithaf y cyfraniad a wna cyrff cyhoeddus tuag at y nodau llesiant. Wrth ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod i ystyried y boblogaeth gyfan y mae'n ei gwasanaethu ac yn ystyried effeithiau ei weithredoedd ar genedlaethau'r dyfodol. Caiff yr egwyddor, a adwaenir fel y pum dull o weithio hefyd, ei hasesu isod:

- **Hirdymor -** Mae'r arfer o ragamcanu niferoedd disgyblion wedi'i defnyddio i nodi'r galw am leoedd ysgol er mwyn sicrhau bod digon o leoedd Addysg ar gael yn ein hysgolion. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i flaenoriaethu ysgolion yn y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion.
- **Atal -** Bydd gwella ansawdd yr ystâd Addysg yn gyffredinol yn cynorthwyo disgyblion gyda'u deilliant addysg a sgiliau hirdymor gan eu bod yn fwy tebygol o lwyddo os yw eu profiad Addysgol yn un cadarnhaol.
- **Integreiddio -** Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn gorfod bodloni BREEAM a chaiff Buddion Cymunedol cynigion unigol eu hasesu a'u monitro am eu heffaith ar economi Cymru. Mae'r cynigion yn rhan o strategaeth hefyd i hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymreig.
- **Cydweithio -** Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn gydweithrediad rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru i wella ansawdd yr ystâd Addysg.
- **Cynnwys –** Drwy'r broses ymgynghori, bydd y Cyngor yn sicrhau yr ymgysylltir yn llawn â'r holl randdeiliaid perthnasol, e.e. rhieni, disgyblion a'r gymuned leol. Cydweithio mewn partneriaeth rhwng rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Is-adran y Blynyddoedd Cynnar sy'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol.

## 9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

9.1 Bydd yr holl Asesiadau perthnasol o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu cynnal cyn symud ymlaen i'r cam ymgynghori, a threfnir eu bod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno derbyn copïau. Mae'r cynigion hyn yn cysylltu gyda'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a chaiff Strategaeth pum mlynedd ar gyfer yr Iaith Gymraeg 2017-2022 effaith gadarnhaol felly ar Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig mewn perthynas ag Ysgol Trinity Fields yn cael effaith gadarnhaol hefyd ar y plant a'r bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r Ysgol ac a fydd yn mynychu'r Ysgol.

## 10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

10.1 Ar 21 Chwefror 2019, cytunodd y Cyngor i ddyrannu £5.475 miliwn i'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif fel arian cyfatebol.

10.2 Mae Cam 1 y rhaglen, ehangu Trinity Fields ac adleoli ac ehangu YGG Cwm Gwyddon yn gyfanswm o £17.4 miliwn. Cyfraniad yr Awdurdod i'r swm hwn yw £5.1 miliwn. Bydd hyn yn arwain at swm heb ei ddyrannu o £375K o'r swm a ddangosir yn 10.1 uchod.

## 11. GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL

11.1 Bydd y rhain yn dibynnu ar gynigion penodol ac fe'u hystyrir fel rhan o'r broses ymgynghori.

## 12. YMGYNGHORIADAU

12.1 Dosbarthwyd yr adroddiad drafft fel yr amlinellir isod. Caiff yr holl sylwadau a dderbyniwyd eu hadlewyrchu yn y fersiwn hon o'r adroddiad.

## 13. PŴER STATUDOL

13.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (Llywodraeth Cymru)
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Awdur: Sue Richards, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg

Ymgyngoreion: Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol
Mark S. Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau
Y Cynghorydd Philippa Marsden, Aelod Cabinet, Addysg a Chyflawniad
Y Cynghorydd Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Y Cynghorydd Carol Andrews, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Steve Harris, Pennaeth Gwella Busnes (Dros Dro) a Swyddog Adran 151 (Dros Dro)
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Anghydraddoldebau a'r Gymraeg)
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Ros Roberts, Rheolwr Perfformiad
Jane Southcombe, Rheolwr Cyllid Addysg
Mark Williams, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo (Dros Dro)
Steve Pugh, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol

**Papurau Cefndir**
Adroddiad y Cabinet – Cynigion Band B y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif – 25/04/19
Adroddiad y Cyngor – Cynigion Cyllideb ar gyfer 2019/20 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019/20 i 2023/2024 – 21/02/19